

Annwyl Gydweithwyr,

Mae'r llythyr hwn yn nodi canfyddiadau arolygiad archwiliad sicrwydd a gwblhawyd gan AGC ac AGIC o 29 Medi i 01 Hydref 2025 o Dîm Anableddau Dysgu Cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a'r Gyfarwyddiaeth Anableddau Dysgu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Diben yr arolygiad oedd adolygu gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol a pherfformiad y bwrdd iechyd wrth arfer eu priod ddyletswyddau a swyddogaethau yn unol â'r deddfwriaethau.

1. Cyflwyniad

Rydym yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 a Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023. Mae hyn yn ein helpu i bennu pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol a byrddau iechyd wrth gefnogi, mesur, a chynnal gwelliannau i bobl. Gwnaethom ganolbwyntio ar y canlynol:

- **Pobl** – I ba raddau y mae'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol yn sicrhau bod pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros ei fywyd ac sy'n gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddo?
- **Atal** – I ba raddau y mae'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol yn sicrhau y caiff yr angen am ofal a chymorth ei leihau i'r eithaf ac y caiff anghenion eu hatal rhag dwysáu, gan sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl i bobl?
- **Partneriaethau** – I ba raddau y gall yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd fodloni eu hunain bod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, cwbl integredig o ansawdd uchel i'r bobl?
- **Llesiant** – I ba raddau y mae'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol yn sicrhau y caiff pobl eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed? I ba raddau y mae'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd yn sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod pobl yn cael gwasanaeth o ansawdd uchel?

2. Crynodeb

- 2.1 Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent yn defnyddio egwyddorion Marmot i alluogi gwasanaethau cyhoeddus i gydweithio ac i wella cydraddoldeb ledled Gwent¹. Nod yr egwyddorion yw datblygu bywydau tecach ac iachach a sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol.
- 2.2 Mae arweinwyr yr awdurdod lleol yn dangos dull cadarnhaol ac arloesol o gyflawni canlyniadau cynaliadwy yn gyson. Mae hyn yn cynnwys gweithio tuag at raglen ymyrraeth gynnar sy'n symud i ffwrdd o fodelau ymarfer traddodiadol, a thuag at atal dan arweiniad y gymuned.
- 2.3 Mae arweinwyr yr awdurdod lleol wedi mabwysiadu dull graddol i reoli newidiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Dros amser, mae datblygiadau gwasanaeth wedi cynnwys ail-ddylunio cyfarwyddiaethau, datblygu model ffederal gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent², a thrawsnewid gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys datblygu gwasanaethau ar gyfer Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ac Ailalluogi Mewnol.
- 2.4 Mae'r arweinwyr wedi datblygu partneriaethau aeddfed a llawn ymddiriedaeth gyda rhanddeiliaid allweddol, er mwyn archwilio cyfleoedd i wella. Gwnaeth ein harolygiad o wasanaethau i bobl ag anabledd dysgu ganfod cryfderau sylweddol mewn cydberthnasau strategol a gweithredol.
- 2.5 Ategir at yr ymarfer cadarnhaol gan weithlu sefydlog a manteision sylweddol cydleoli. Mae ymarferwyr yn cydweithio ac yn canolbwyntio ar atal ac ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae cyfathrebu gweithredol yn gryfder ac mae rhannu gwybodaeth yn cefnogi canlyniadau gwell. Mae hyn oll yn creu gwasanaeth sy'n gwerthfawrogi cydberthnasau yn hytrach na thrafodion ac yn blaenoriaethu anghenion yn hytrach na galwadau.
- 2.6 Yn y diwylliant cadarnhaol hwn, cyflawnir y rhan fwyaf o ddyletswyddau statudol yn gyson ac roedd sawl maes o ymarfer cadarnhaol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio fforymau gwneud penderfyniadau arloesol, trefniadau sicrhau ansawdd cadarn, a dulliau creadigol o ran ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Fodd bynnag, mae meysydd i'w gwella nodedig o hyd y mae'r arweinwyr yn ymwybodol ohonynt ac y mae ganddynt gynlluniau i fynd i'r afael â nhw. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau sydd eu hangen o ran mynediad at ofal sylfaenol, cynnig rhagweithiol ar gyfer eiriolaeth a thaliadau uniongyrchol, cymorth i ofalwyr, a threfniadau ar gyfer addysg a chyflogaeth.

¹ [Rhanbarth Marmot Gwent – Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent](#)

² [Datganiad Ysgrifenedig: Ffedereiddio llywodraeth leol yng Nghynghorau Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Thorfaen \(23 Ionawr 2025\) | LLYW.CYMRU](#)

- 2.7 Mae'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd hefyd yn gweithio yng nghyd-destun heriau cenedlaethol yn ymwneud â chapasiti a phwysau cyllidebol. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar gydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol ar gyfer Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ac arferion byrddau iechyd mewn perthynas â Gofal Iechyd Parhaus. Mae'r arweinwyr yn ymwybodol o'r materion hyn ac yn trafod gwelliannau'n genedlaethol a gyda'r Bwrdd Partneriaeth Strategol Integredig lleol.

3. Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth

Pobl

Cryfderau

- 3.1 Gwnaeth bron pawb nodi bod eu gofal yn dda neu'n dda iawn, a chaiff y staff eu disgrifio'n aml fel unigolion caredig, gofalgar, cefnogol sy'n gwrando'n dda. Byddai cyfathrebu mwy uniongyrchol rhwng gweithwyr cymdeithasol ag unigolion yn cryfhau'r arfer hwn ymhellach gan leihau'r ddibyniaeth ar gyswllt â theulu a gofalwyr.
- 3.2 Mae'r awdurdod lleol wedi buddsoddi mewn hyfforddiant a datblygiad i gefnogi dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sgysiau 'beth sy'n bwysig'. Mae gweithlu'r Gwasanaethau Anabledd Dysgu yn sefydlog, sy'n caniatáu cydberthnasau llawn ymddiriedaeth. Mae tystiolaeth o ddealltwriaeth ddyfnach o ddewisiadau ac arferion pan fydd staff wedi gweithio gydag unigolion am gyfnod hir o amser.
- 3.3 Mae'r rhan fwyaf o unigolion yn profi cynllunio sy'n seiliedig ar eu cryfderau ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Yn aml, caiff y cynlluniau eu hysgrifennu yn y person cyntaf. Derbyniodd unigolion lythyrau mewn Plain English yn dilyn adolygiadau seiciatrydd gyda meddyg ymgynghorol, a oedd yn manylu ar y canlyniadau a'r camau gweithredu. Anfonwyd copïau at feddygon teulu. **Mae'r ymarfer cynhwysol a chadarnhaol hwn yn rhoi unigolion wrth wraidd eu gofal.**
- 3.4 Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu gwasanaeth penodol ar gyfer ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r gwasanaeth hwn yn sicrhau y caiff cynlluniau eu teilwra i anghenion, dewisiadau a gallu unigolion gan ystyried eu sefyllfaoedd unigryw. **Gwelsom enghreifftiau da o hyn gan sicrhau deilliannau cadarnhaol i bobl.**
- 3.5 Mae'r staff yn ystyried anghenion cyfathrebu pobl ac yn hyrwyddo cynnig gweithredol y Gymraeg yn gyson. Mae ymarferwyr yn addasu eu dull o rannu cynlluniau ac yn defnyddio offer, fel matiau siarad, a mewnbwn amlasiantaethol

i hyrwyddo dull cynhwysol. Byddai defnyddio dogfennau hawdd eu deall yn fwy cyson yn cryfhau'r arfer hwn ymhellach.

- 3.6 Mae rheolwyr yn darparu goruchwyliaeth amserol, ac mae ymarferwyr yn disgrifio hyn fel rhywbeth sy'n diwallu eu hanghenion personol a phroffesiynol. Mae cyfleoedd cyson ar gyfer ymarfer myfyriol, sy'n cefnogi diwylliant o ddysgu ac yn hyrwyddo llesiant staff.
- 3.7 Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi dull 'powlen bysgod' ar waith, sydd wedi cael cydnabyddiaeth gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol³. Mae 'powlen bysgod' yn dod ag ymarferwyr ynghyd er mwyn canolbwyntio ar rwydweithiau cymorth presennol y person, a'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Mae'n hyrwyddo gwneud penderfyniadau gwell ar gyfer pobl ac mae timau'n defnyddio'r fforwm hwn i adolygu a dysgu pan fo apeliadau. **Mae hwn yn ymarfer cadarnhaol sy'n creu her effeithiol mewn man diogel.**
- 3.8 Mae'r rhan fwyaf o'r adolygiadau yn digwydd ar amser, ac ar y cyfan, caiff barn pobl a rhanddeiliaid eraill eu cofnodi. Byddai canolbwyntio mwy ar ddatrysiadau sy'n cyd-fynd â nodau a dyheadau'r unigolyn yn gwella ansawdd yr adolygiadau. Fodd bynnag, anogir pobl i raddio'r gwasanaeth maen nhw'n ei dderbyn, rhannu sut maen nhw'n teimlo am eu gofal ac awgrymu unrhyw newidiadau yr hoffent eu gwneud. Rhennir yr adborth hwn gyda chomisiynwyr ac mae'n helpu i wella ansawdd y gwasanaethau. **Mae hwn yn ymarfer cadarnhaol sy'n helpu pobl i gymryd rhan yn y broses gynllunio a sicrhau eu bod yn cyfrannu at welliannau wrth ddarparu gwasanaethau.**
- 3.9 Mae gan y bwrdd iechyd dair lefel o hyfforddiant gorfodol i ymarferwyr ac mae'r cyfraddau cydymffurfio yn dda. Mae hyn yn hyrwyddo gweithlu medrus a hyfforddedig. Mae'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd yn darparu hyfforddiant gorfodol ar y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol i'r holl weithlu. Caiff yr hyfforddiant hwn ei addasu i raddau cyflog a rolau gwahanol. **Mae hwn yn ymarfer cadarnhaol sy'n helpu i sicrhau bod hawliau pobl yn cael eu diogelu**

Meysydd i'w Gwella

- 3.10 Mae cryfhau llais pobl ag anabledd dysgu yn hanfodol i sicrhau bod gwasanaethau'n wirioneddol yn canolbwyntio ar yr unigolyn a bod unigolion yn gallu llunio eu cefnogaeth eu hunain, eirioli dros eu hawliau, a dylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. **Mae llais yr unigolyn yn amrywio mewn cofnodion a dylid ei gryfhau mewn cynlluniau a chofnodion diogelu.**

³ [Ymarfer Gofal Cymdeithasol Arloesol yn Nhorfaen | Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#)

- 3.11 Mae rhwydweithiau anffurfiol a darparwyr yn cynnig eiriolaeth yn gyson i bobl. Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n defnyddio eiriolaeth ffurfiol yn isel, a nodwyd sawl enghraifft lle'r oedd angen eiriolaeth ffurfiol ond na chafodd ei chynnig. **Dylai'r arweinwyr a'r ymarferwyr sicrhau bod pobl yn derbyn y cynnig gweithredol o eiriolaeth yn gyson.**
- 3.12 Mae adran hyfforddi'r awdurdod lleol yn cwrdd ag ymarferwyr bob blwyddyn i ddatblygu ei rhaglen hyfforddi. Mae'r awdurdod lleol ac ymarferwyr iechyd yn datgan y byddai mwy o hyfforddiant amlasiantaethol yn gwella'r cynnig hyfforddiant. Mae arweinwyr yr awdurdod lleol yn ymwybodol o geisiadau'r ymarferwyr am hyfforddiant mwy pwrpasol a manwl. Nid yw arfarniadau'r awdurdod lleol na'r bwrdd iechyd yn cael eu cwblhau mewn modd amserol. **Dylai'r arweinwyr gryfhau'r systemau ar gyfer datblygiad proffesiynol.**
- 3.13 Mae gan yr awdurdod lleol brinder Aseswyr Budd Pennaf. Er bod hyfforddiant ar gael, gellir gwella'r nifer sy'n ymgymryd â hyfforddiant. Mae hyn yn rhannol am nad yw'r hyfforddiant yn gysylltiedig â chymhellion cyflog, fel sy'n digwydd i Ymarferwyr Iechyd Meddwl Cymeradwy. Mae'r arweinwyr yn ymwybodol o'r her hon, ac yn archwilio cyfleoedd i wella'r cymhellion. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod niferoedd digonol o staff yn cael eu hyfforddi i gwblhau Asesiadau Budd Pennaf a chyflawni dyletswyddau statudol.**
- 3.14 Mae ymarferwyr iechyd yn cwblhau ymgynghoriadau, asesiadau, a thrafodaethau cyfrinachol gyda phobl yn y gymuned. Caiff clinigau ac apwyntiadau eu cynnal yn Alders House o dro i dro. Mae'r adeilad hwn wedi'i arwyddo'n wael ac mewn cyflwr gwael, nad yw'n adlewyrchu ansawdd y trafodaethau clinigol a gynhelir yno. Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniant hwn a sicrhau bod ystafelloedd priodol ar gael i alluogi ymarfer diogel ac effeithiol.

Atal

Cryfderau

- 3.15 Mae'r arweinwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd ymyrraeth gynnar ac yn canolbwyntio ar hyrwyddo cryfderau a gwydnwch pobl. Mae gweledigaeth glir ar gyfer cynhwysiant cymunedol a chefnogi pobl i gyflawni eu potensial.
- 3.16 Mae'r awdurdod lleol wedi mabwysiadu dull cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer gwelliannau strategol. Mae gwasanaethau oedolion yr awdurdod lleol bellach yn rhan o'r gyfarwyddiaeth gymunedol. Mae pwynt mynediad unigol newydd sy'n darparu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ac mae'r gwasanaethau cymorth cartref wedi'u cyfuno i ffurfio gwasanaeth ail-alluogi integredig.

- 3.17 Mae arweinwyr yn y bwrdd iechyd yn ymwybodol o'r angen i gynyddu'r capasiti ar gyfer atal, a bydd adolygiad o'r model gofal yn ceisio cydbwyso a datblygu mwy o gefnogaeth gymunedol i bobl. **Dylai'r arweinwyr sicrhau bod yr adolygiad hwn yn cynnwys mewnbwn gan randdeiliaid allweddol, gan gynnwys pobl a sefydliadau partner.**
- 3.18 Mae pobl yn profi dull cydgysylltiedig o ran ystyried cymhwysedd a chynllunio gofal. Mae timau amlddisgyblaethol yn gweithio gyda'i gilydd i nodi anghenion a rhoi cymorth. Mae staff yn gallu addasu'r cymorth i osgoi unrhyw oedi, ac mae tystiolaeth o ymateb mewn modd rhyngweithiol i unrhyw newidiadau mewn angen. **Mae hwn yn ymarfer cadarnhaol sy'n helpu i atal anghenion pobl rhag mynd yn fwy cymhleth, ac yn helpu i wella canlyniadau i'r rhai hynny sy'n derbyn gofal a chymorth.**
- 3.19 Caiff gweithwyr llesiant eu neilltuo i bobl sydd angen asesiad hirfaith, gan ganiatáu amser i archwilio'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw o ran gweithgareddau ac ymgysylltu â'r gymuned. Mae'r dull hwn yn symud i ffwrdd o ragnodi gwasanaethau dydd traddodiadol ac yn cefnogi pobl i nodi beth sy'n diwallu eu hanghenion orau. Gwelsom enghreifftiau o bobl yn cael cymorth i fynychu grwpiau cymunedol ac ymgymryd â chyfleoedd gwaith, a wnaeth atal yr angen i rai pobl fynd i mewn i wasanaethau statudol. Mae defnyddio Tŷ Glas y Doran ac ail-alluogi i feithrin sgiliau byw annibynnol yn galluogi pobl i symud tuag at ffyrdd o fyw mwy annibynnol, lle efallai y byddai wedi bod angen cymorth 24 awr arnynt fel arall. **Mae hwn yn arfer cadarnhaol gan fod staff yn canolbwyntio ar hyrwyddo annibyniaeth ac atal yr angen am ymyriadau statudol.**
- 3.20 Mae gwasanaeth dydd lleol yn gweithio'n agos gyda sefydliadau lleol ac yn helpu pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrion y tu allan i leoliadau traddodiadol. Mae'r dull hwn yn llenwi bylchau mewn cymorth, yn annog cynhwysiant ac yn rhoi mwy o gyfleoedd i bobl sy'n cyd-fynd â'u diddordebau a'u nodau.
- 3.21 Roedd y defnydd o gynlluniau ymddygiad cadarnhaol yn arbennig o effeithiol mewn rhai cofnodion a byddai sicrhau bod y dull hwn yn cael ei gymhwyso'n gyson, pan fo'n briodol, yn cryfhau'r ymarfer hwn ymhellach. Caiff pobl eu cefnogi'n gyson gyda newidiadau disgwylidig a risgiau posibl, er mwyn atal argyfwng, cynnal sefydlogrwydd, a hyrwyddo hyder yn y cymorth a ddarperir. **Mae cynllunio wrth gefn yn faes o ymarfer cadarnhaol.**

Meysydd i'w Gwella

- 3.22 Nid ystyriwyd taliadau uniongyrchol na'r cynllun Bywydau a Rennir fel mater o drefn ar gyfer pobl a oedd yn derbyn gofal a ariennir ar y cyd. Roedd rhwystrau i'r opsiynau hyn pan ariennir pecynnau ar y cyd â'r bwrdd iechyd. Mae

Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y mater hwn ar hyn o bryd ac yn cynnig rheoliadau o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 sy'n anelu at ganiatáu i Fyrddau Iechyd Lleol wneud taliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus, adfer llais a rheolaeth i bobl sy'n derbyn gofal a ariennir gan y GIG, gwella parhad gofal ac o bosibl lleihau costau drwy alluogi gofal gartref.⁴

Rhaid i'r arweinwyr sicrhau bod pobl yn cael cynnig taliadau uniongyrchol yn gyson yn unol â'r ddeddfwriaeth. Dylai'r bwrdd iechyd gryfhau'r defnydd o ymyriadau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, er mwyn paratoi ar gyfer newid deddfwriaethol a hyrwyddo gwell dewis ac annibyniaeth i bobl.

3.23 Crëwyd Siarter Gwent ar gyfer Gweithio Gyda'n Gilydd gan bobl ag anableddau dysgu i nodi'r hyn sydd bwysicaf iddyn nhw, gan gynnwys cyfleoedd teg i weithio a chael cefnogaeth yn y gweithle.⁵ Gwnaeth astudiaeth ddiweddar (a gomisiynwyd gan Gynghorau Bwrdeistref Sirol Torfaen a Blaenau Gwent) ganfod fod pobl ag anableddau dysgu yn parhau i wynebu rhwystrau i addysg a chyflogaeth a bod llawer ohonynt eisiau rhagor o help. Roedd hanner y bobl a ymatebodd i'n harolwg eisiau mwy o gyfleoedd cyflogaeth ac roedd bwlch sylweddol yn parhau rhwng dyheadau pobl a'u canlyniadau cyflogaeth gwirioneddol. **Dylai'r awdurdod lleol ystyried argymhellion yr astudiaeth ar frys i wella cyfleoedd cyflogaeth i bobl ag anableddau dysgu yn Nhorfaen.**

3.24 Un argymhelliad o'r astudiaeth hon yw'r angen i ymgorffori cyflogaeth gynhwysol mewn strategaethau rhanbarthol a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â fframweithiau cenedlaethol. Mae hefyd yn argymhell bod yr awdurdod lleol yn gweithredu fel model rôl drwy gyflogi pobl ag anableddau a sefydlu arferion cynhwysol ym mhob adran. Ar adeg yr archwiliad sicrwydd hwn, nodwyd nad oedd yr awdurdod lleol a chyfarwyddiaeth anabledd dysgu'r bwrdd iechyd yn arfer yr arferion cyflogaeth gynhwysol â chymorth. **Mae arweinwyr yr awdurdodau lleol yn ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn a dylent barhau i geisio cymeradwyaeth gorfforaethol am gefnogaeth. Dylai cyfarwyddiaeth anabledd dysgu'r bwrdd iechyd weithio gyda chydweithwyr ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth gynhwysol â chymorth.**

3.25 Byddai pobl yn elwa o welliannau mewn trefniadau pontio. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth bontio i wasanaethau oedolion a gadael y byd addysg. Mae gan yr awdurdod lleol weithiwr pontio sy'n cefnogi'r trefniadau hyn, ac mae gan y bwrdd iechyd staff pontio yn y tîm comisiynu. Mae'r arweinwyr yn ymwybodol o'r mater hwn ac yn archwilio cyfleoedd i ddatblygu'r gwasanaethau

⁴ [Ymgynghoriad ar reoliadau a gynigir ar gyfer taliadau uniongyrchol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

⁵ [Gwent-Charter-for-Working-Together.pdf](#)

hyn i ddiwallu anghenion yn well. **Dylai arweinwyr barhau i wella'r cymorth sydd ar gael i bobl yn ystod cyfnodau o newid sylweddol.**

- 3.26 Gall rhestrau aros y bwrdd iechyd gael effaith ar amseroldeb y cymorth a roddir i bobl ac ansawdd y canlyniadau hynny. Caiff rhestrau aros eu rheoli yn ôl risg a'u hadolygu'n rheolaidd. **Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i sicrhau y caiff rhestrau aros eu monitro mewn ffordd briodol a chyson ac y caiff gwybodaeth allweddol ei chofnodi i ddangos bod achosion yn cael eu blaenoriaethu'n briodol.**
- 3.27 Mae'r nifer cynyddol o asesiadau gofalwyr sy'n cael eu cwblhau yn adlewyrchu cydnabyddiaeth gynyddol o anghenion gofalwyr ac ymrwymiad cryfach i gyflawni dyletswyddau statudol tuag at ofalwyr. Pan nodir yr angen am asesiad, caiff y rhain eu cwblhau mewn modd amserol. Gall gofalwyr gael cymorth gan yr Hwb Gofalwyr a gwasanaeth Pontio'r Bwlch. Fodd bynnag, mae rhannu gwybodaeth am y gwasanaethau hyn yn amrywio ac mae gofalwyr yn disgrifio profiadau cymysg o'r cymorth a geir yn dilyn asesiad. **Dylai'r arweinwyr ymgynghori â'r gofalwyr ac archwilio cyfleoedd i wella gwasanaethau a llwybrau at gymorth.**
- 3.28 Ym mis Hydref 2024, gwnaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gwblhau ymchwiliad i weinyddiaeth asesiadau anghenion gofalwyr yng Nghymru⁶. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys argymhellion ynghylch rhannu gwybodaeth, codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant, cydweithio ac archwilio. Dylai arweinwyr yr awdurdodau lleol ystyried argymhellion a wnaed gan yr Ombwdsman a bwrw ymlaen ag unrhyw bwyntiau dysgu a fyddai'n gwella darpariaeth eu gwasanaeth.

Partneriaeth

Cryfderau

- 3.29 Caiff cydberthnasau strategol a gweithredol eu nodweddu gan gyfathrebu cydweithredol, integreiddio a her barchus. Mae pob aelod o'r staff yn nodi bod y bartneriaeth rhwng y gwasanaethau'r bwrdd iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio'n dda neu'n dda iawn.
- 3.30 Anogir ymarferwyr i fod yn greadigol, ac maent yn disgrifio rheolwyr ac arweinwyr fel rhai hawdd mynd atynt, cymwys, ac ymddiriedus. Mae diwylliant cadarnhaol yn y bartneriaeth sy'n canolbwyntio ar gydberthnasau, dysgu, cryfderau a chymunedau. **Ategir yr ymarfer cadarnhaol hwn gan ethos un gwasanaeth rhwng y bwrdd iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol.**

⁶ [A ydym yn gofalu am ein gofalwyr? – Ymchwiliad Ar Ei Liwt ei Hun i'r gweinyddu](#)

- 3.31 Mae model wedi'i gydleoli'r bwrdd iechyd a gofal cymdeithasol yn Nhorfaen yn gryfder sylweddol. Mae'r dull hwn yn gwella mynediad i wasanaethau, yn lleihau oedi, ac yn sicrhau bod gofal yn cyd-fynd yn well ag anghenion pobl sydd ag anableddau dysgu. **Mae natur amlddisgyblaethol y model hwn yn ymarfer cadarnhaol, sy'n cefnogi cydweithio proffesiynol ac yn cyfrannu at ganlyniadau mwy cyson sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.**
- 3.32 Gall y rhan fwyaf o bobl yn Nhorfaen gael gwasanaethau heb oedi, pan fo angen wedi'i asesu. Mae rhestrau aros ar gyfer cymorth cartref, ail-alluogi, a gwasanaethau cartrefi gofal yn gyfyngedig. Mae hyn yn adlewyrchu perfformiad da a phartneriaethau effeithiol gyda darparwyr, er mwyn sicrhau marchnad gofal ymatebol a digonol.
- 3.33 Mae arweinwyr yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd yn gobeithio cryfhau fforymau darparwyr a chomisiynu, er mwyn gwella cydlynu gwasanaethau a chyfleoedd ar gyfer arloesi. Diweddarodd yr awdurdod lleol ei Fframwaith Comisiynu ym mis Chwefror 2025 i gyd-fynd â fframwaith cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer comisiynu gofal a chymorth.⁷ Mae'r arweinwyr yn ymwybodol o heriau'r farchnad ac wedi datblygu Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Strategaeth Gomisiynu wedi'u diweddarau ar gyfer 2025-2030.

Meysydd i'w Gwella

- 3.34 Mae gan y bwrdd iechyd swydd wag yn rôl y nyrs arweiniol a bu heriau gydag adnoddau nyrsio. Mae hyn yn effeithio ar rannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau rhwng y bwrdd iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. **Dylai'r bwrdd iechyd flaenoriaethu recriwtio'r holl staff nyrsio, er mwyn gwella arweinyddiaeth glinigol a chynyddu'r capasiti i fynd i'r afael â rhestrau aros.**
- 3.35 Ar y cyfan, caiff pobl gymorth i gynnal eu hiechyd corfforol, gyda thystiolaeth o atgyfeiriadau amserol at therapi galwedigaethol, ffisiotherapi, a therapi iaith a lleferydd. Darperir addasiadau a chyfarpar arbenigol mewn ymateb i anghenion a aseswyd ac mae prosesau ar gyfer rheoli meddyginiaeth yn cydymffurfio â pholisi'r bwrdd iechyd. Fodd bynnag, mae rhwystrau i gael mynediad at dimau anableddau corfforol pan fydd gan bobl anabledd dysgu hefyd, ac ni all llawer o bobl gael mynediad at ofal iechyd amserol drwy ofal sylfaenol. **Rhaid i'r bwrdd iechyd weithio gyda meddygon teulu i sicrhau bod pobl yn cael eu harchwiliad iechyd blynyddol yn gyson a dylai geisio sicrhau bod gan bobl ag anabledd dysgu feddyg teulu wedi'i enwi. Dylai arweinwyr archwilio cyfleoedd i wella llwybrau at dimau gofal sylfaenol ac anabledd corfforol yn y Bwrdd Partneriaeth Strategol Integredig.**

⁷ [Fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth: cod ymarfer | LLYW.CYMRU](#)

- 3.36 Er bod gan yr awdurdod lleol drefniadau ar gyfer darparu seibiannau byr a lleoliadau Bywydau a Rennir, mae llawer o gyfleoedd i gael mynediad at y gwasanaethau hyn y tu allan i'r sir. Adroddodd rhai gofalwyr heriau â'r trefniadau hyn, a gall hyn effeithio ar amseroldeb a hygyrchedd y cymorth. **Dylai'r arweinwyr barhau i wrando ar adborth gan randdeiliaid i ddiwallu anghenion yn well.**

Llesiant

Cryfderau

- 3.37 Mae staff yn rheoli pryderon diogelu yn unol â gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan. Mae goruchwyliaeth reoli briodol a chyfranogiad amlddisgyblaethol sy'n cefnogi prosesau diogelu a gwneud penderfyniadau effeithiol. Caiff adroddiadau eu hymchwilio mewn modd amserol a chymesur, mae cofnodion yn darparu rhesymeg dros wneud penderfyniadau, ac mae pryderon yn cael eu codi'n briodol.
- 3.38 Mae staff yn cwblhau gwaith papur sy'n gysylltiedig â phenderfyniad lles pennaf yn drylwyr, gan ddogfennu'r rhesymeg dros wneud penderfyniadau, ymgynghori â gweithwyr proffesiynol perthnasol ac aelodau'r teulu, ac ystyried anghenion ac amgylchiadau pob unigolyn. Mae'r dogfennau'n adlewyrchu egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol ac yn hyrwyddo gwneud penderfyniadau tryloyw sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- 3.39 Caiff arweinwyr yr awdurdod lleol fynediad at gyfres o ddangosfyrddau i oruchwyllo cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol. Mae hyn yn cefnogi sicrhau ansawdd ac mae rheolwyr yn cwblhau archwiliadau i ddilysu ymarfer, deall themâu, llywio ailgynllunio, a gwella eu dealltwriaeth o anghenion y gwasanaeth. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth dda i arweinwyr o gryfderau'r gwasanaeth a meysydd i'w gwella.
- 3.40 Mae arweinwyr y bwrdd iechyd yn monitro cryfderau'r gwasanaeth a meysydd i'w gwella drwy gynnal cyfarfodydd sicrwydd rheolaidd gyda'r gyfarwyddiaeth i drafod metrigau perfformiad manwl, data ariannol, ystadegau'r gweithlu, a chofrestrau risg gan dynnu sylw at gyflawniadau a heriau parhaus. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod gan arweinwyr y dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer gyrru gwelliant parhaus mewn gwasanaethau.

Meysydd i'w Gwella

- 3.41 Nid yw llais yr unigolyn na'r rhwydweithiau cymorth yn cael eu cofnodi'n gyson mewn asesiadau risg a dogfennau diogelu. Dylai ymarfer effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gynnwys cydweithio â'r oedolyn sy'n wynebu a (lle

bo'n briodol) ei ofalwyr, teulu a/neu eiriolwyr. **Dylai arweinwyr weithio gydag ymarferwyr i gryfhau ymarfer yn y meysydd hyn.**

- 3.42 Mae adnodd sgrinio a gaiff ei gydnabod yn genedlaethol ar waith i flaenoriaethu atgyfeiriadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Caiff y rhestr aros ei hadolygu'n rheolaidd, ond mae cyfyngiadau adnoddau ac argaeledd cyfyngedig meddygon o dan adran 12 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn cyfrannu at oedi prosesu atgyfeiriadau o'r rhestr aros. **Dylai arweinwyr barhau i uwchgyfeirio'r heriau'n ymwneud ag adnoddau i'r Bwrdd Partneriaeth Strategol Integredig.**
- 3.43 Mae timau'n nodi pobl a allai fod angen Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid mewn lleoliadau cymunedol drwy gynllunio gofal a chymorth, a defnyddio adnodd sgrinio i flaenoriaethu ceisiadau at y Llys Amddiffyn. Oherwydd cyfyngiadau adnoddau ac ôl-groniadau yn y llysoedd, maent yn prosesu ceisiadau ar gyfer pobl a aseswyd fel rhai â blaenoriaeth uchel, ond nid yw ceisiadau'n cael eu gwneud ar gyfer pob unigolyn a allai gael ei amddifadu o'i ryddid mewn lleoliadau cymunedol fel sy'n ofynnol gan ganllawiau statudol. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod staff yn nodi pob unigolyn sydd wedi'i amddifadu o'i rhyddid mewn lleoliadau cymunedol a gwneud ceisiadau amserol i'r Llys Amddiffyn yn unol â gofynion cyfreithiol.**
- 3.44 Mae systemau ar waith ar gyfer monitro a blaenoriaethu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, ond gall pwysau ar adnoddau a'r system effeithio ar gysondeb ac amseroldeb y gwasanaeth, gan gynnwys gwneud, adnewyddu ac adolygu ceisiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. **Dylai arweinwyr barhau i fonitro perfformiad a nodi datrysiadau gyda phartneriaid y Bwrdd Partneriaeth Strategol Integredig.**

4. Y Camau Nesaf

- 4.1 Mae AGC ac AGIC yn disgwyl i'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella.
- 4.2 Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r ymarfer cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.
- 4.3 Bydd AGIC yn goruchwyllo'r gwaith o roi'r argymhellion gofal iechyd ar waith drwy gwblhau Cynllun Gwella gan y bwrdd iechyd. Bydd y cynllun hwn yn amlinellu canfyddiadau AGIC a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt ar

gyfer gwella, gan nodi'r swyddog cyfrifol a'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer cwblhau.

5. Methodoleg

Gwaith maes

- 5.1 Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau 24 o bobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a gofal iechyd a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar bedwar cofnod a oedd yn seiliedig ar wasanaethau gofal iechyd a naw cofnod a oedd yn seiliedig ar wasanaethau cymdeithasol. Gwnaethom olrhain cofnodion saith person a oedd wedi cael cymorth gan y wasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Gwnaethom hefyd edrych ar asesiadau pedwar person a oedd yn destun awdurdodiad Amddifadu o Ryddid.
- 5.2 Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys, lle y bo'n bosibl, sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a lle y bo'n briodol, weithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.
- 5.3 Drwy gyfweiliadau a grwpiau ffocws â phobl sy'n cael gwasanaethau a/neu eu gofalwyr, ymgysylltodd AGC/AGIC ag 16 o unigolion.
- 5.4 Drwy gyfweiliadau a grwpiau ffocws â chyflogeion yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol, ymgysylltodd AGC/AGIC â 29 o gyflogeion.
- 5.5 Gwnaethom edrych ar y dogfennau ategol a anfonwyd at AGC ac AGIC at ddiben yr arolygiad.
- 5.6 Gwnaethom ddosbarthu arolygon i ymarferwyr yr awdurdod lleol ac ymarferwyr gofal iechyd sy'n gweithio yn y Gwasanaethau Anabledd Dysgu Cymunedol, sefydliadau partner a phobl, gan gynnwys gofalwyr:
 - cwblhawyd 72 o arolygon gan bobl ag anabledd dysgu.
 - cwblhawyd 12 arolwg gan rieni/gofalwyr.
 - cwblhawyd 10 o arolygon gan ymarferwyr.
 - Cwblhawyd pum arolwg gan sefydliadau partner
- 5.7 Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn <https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-personol>.

6. Y Gymraeg

Rydym yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod y gweithgarwch hwn. Nid oedd angen y cynnig rhagweithiol y tro hwn. gan nad oedd y bobl a oedd yn cymryd rhan yn dymuno cyfrannu at yr archwiliad sicrwydd hwn yn Gymraeg.

7. Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ac AGIC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr archwiliad sicrwydd hwn.

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
Arolygiaeth Gofal Cymru
Cymru



Vanessa Davies
Pennaeth Sicrwydd y GIG
Arolygiaeth Gofal Iechyd

Atodiad 1

Rhestr Terminoleg

Term	Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau
rhaid	Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo weithredu.
dylai	Bydd gwelliant yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir a/neu ganlyniadau i bobl a/neu eu gofalwyr. Nid yw'n gyfystyr â methiant i gyflawni dyletswydd gyfreithiol ar hyn o bryd; ond heb gamau gweithredu addas, mae risg y gall yr awdurdod lleol fethu â chyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol.
Ymarfer cadarnhaol	Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae hyn yn golygu ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol.
Atal ac Ymyrryd yn Gynnar	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu.
Llais a Rheolaeth	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant ac i gyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt.
Llesiant	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod pobl yn profi llesiant ym mhob rhan o'u bywyd. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach yn unig. Mae'n ymwneud â bod

	yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth.
Cydgynhyrchu	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofawyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau.
Gwaith amlasiantaethol	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gryfhau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn sicrhau bod y mathau cywir o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodiad y Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth.
Yr hyn sy'n bwysig	Mae sgysiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofawr a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt eu clywed.

Atodiad 2

Tabl Diffinio Meintiau

Terminoleg	Diffiniad
Bron pob un	Gydag ychydig iawn o eithriadau
Y rhan fwyaf	90% neu fwy
Llawer	70% neu fwy
Mwyafrif	Dros 60%
Hanner	50%
Tua hanner	Yn agos i 50%
Lleiafrif	Llai na 40%

Nifer bach	Llai nag 20%
Nifer bach iawn	Llai na 10%